# Ysgol y Cwm – Sut y Gallwch Chi Helpu

Mae'n debyg mai Ysgol y Cwm yw'r unig ysgol Gymraeg yn y byd sydd wedi cael ei hadeiladu yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan ddefnyddio cyllid preifat yn unig. Cafodd yr ysgol ei chreu er mwyn sicrhau dyfodol disglair i'r Gymraeg yn ardal yr Andes, yma yn y Wladfa. Ers agor yn 2016, mae'r ysgol wedi pasio holl brofion ffurfiol Gweinyddiaeth Addysg yr Ariannin yn rhwydd a gyda chlod. Mae hi hefyd wedi ail-sbarduno'r awydd o fewn y gymuned Gymraeg yn yr Andes i ddysgu'r iaith, ac wedi codi ymwybyddiaeth o arferion, diwylliant a hanes Cymru. Ar ben hynny, mae ei henw da mor adnabyddus, a'r gystadleuaeth gan system addysg gyhoeddus Talaith Chubut mor wael o'i chymharu, ac atyniad iaith a diwylliant Cymru mor gryf, nes bod rhieni mwy na 65% o blant yr ysgol yn dod gefndiroedd di-Gymreig.

Fodd bynnag, nid yw llywodraeth yr Ariannin yn poeni ryw lawer am ysgolion dwyieithog, ac efallai y byddai'n deg dweud nad oes gan y llywodraeth lawer o ddiddordeb mewn gweld ei thrigolion yn dysgu iaith Brydeinig. O ganlyniad, nid yw'n rhoi unrhyw gefnogaeth ariannol i'r athrawon Cymraeg (o Batagonia ac o Gymru) yn yr ysgol, ac felly mae'r ysgol yn dioddef diffyg ariannol o tua $1,000 y mis, diffyg na ellir ei fodloni trwy wasgu rhieni'n galetach, na thrwy gynnal rhagor o ddigwyddiadau codi arian yn lleol.

Er bod gennym lawer o gefnogwyr ledled y byd, yr unig ffordd, yn y tymor hir, y gallwn gwrdd â'r diffyg hwn yw trwy ddenu **Gwarchodwyr** newydd. Mae hyn yn golygu sefydlu archeb banc o blaid yr ysgol am gyn lleied â £ 10 y mis. Os gallwch chi, yna os gwelwch yn dda, gwnewch. Cydnabyddir ein noddwyr ar eu tudalen arbennig eu hunain ar wefan yr ysgol.

Os hoffech chi gael enw eich cwmni chi, neu enw ffrind neu anwylyn, yn gysylltiedig â'r ysgol, fe allech chi hefyd ddod yn un o'n **"Hyrwyddwyr"** trwy noddi:

- Ystafell ddosbarth;
- Coeden ar dir yr ysgol;
- Mainc bren ar dir yr ysgol;
- Plentyn haeddiannol na all ei rieni fforddio'r ffioedd ysgol;
- Athro Cymraeg i ddod i Ysgol y Cwm am flwyddyn;
- Ysgoloriaeth fel y gallai ein myfyrwyr gorau astudio yng Nghymru.

Mae rhagor o fanylion am y cyfleoedd uchod i'n noddi yn ymddangos ar y wefan, www.ysgolycwm.com

Mae ffyrdd eraill o helpu'r ysgol yn cynnwys:

- Dod i Batagonia am flwyddyn ar eich liwt eich hun i ddysgu yn yr ysgol;
- Archebu offer o Amazon i'w ddefnyddio yn yr ysgol (gweler y wefan);
- Gadael arian yn eich ewyllys;
- Gwneud rhoddion arian parod unwaith-yn-unig.
- Trefnu gweithgareddau codi arian (er enghraifft, y Cyngerdd Nadolig yng Nghapel Jewin yn Llundain yn 2020, wedi'i drefnu gan Huw Edwards);
- Prynu eitemau, er enghraifft tyweli te a llyfrau, o'r ysgol;
- Ceisio am grantiau Dyngarwch.

Bydd pob cymorth a chyfraniad yn cael ei gydnabod ar wefan yr ysgol.

**Llysgenhadon**
Mae'r rhain yn unigolion ac yn grwpiau a benodir gan yr ysgol, sy'n mynd allan o'u ffordd i ddod â'r ysgol i sylw'r cyhoedd a chynyddu ei phroffil ledled y Byd. Rydym yn falch iawn o'u cael fel ffrindiau pwysig i'r ysgol. Maent yn cynnwys:

Huw Edwards, Sian Lloyd, Cymdeithas yr Hoelion Wyth, Tref Aberteifi

**Hyrwyddwyr** - Manylion Llawn

Bydd hyrwyddwyr yn noddi rhai agweddau o'r ysgol yn enw ffrind, anwylyn neu fenter fasnachol. Bydd yr ysgol yn gwerthuso pob cais am statws Hyrwyddwr, ond nodwch nad yw cael derbyniad o reidrwydd yn dod yn awtomatig.

**Noddi ystafell ddosbarth £5,000**

Bydd ystafell ddosbarth unigol yn cael ei noddi am gyfnod o 5 mlynedd. Bydd plac gydag enw'r person/sefydliad y mae'r ystafell ddosbarth yn ei goffau neu'n gyflwynedig iddo yn ymddangos yn amlwg yn yr ystafell ddosbarth, a bydd y plant yn derbyn briff ar yr unigolyn / sefydliad bob blwyddyn. Ar ôl cael briff, bydd y plant yn ymgymryd â phrosiect i greu rhai eitemau ( lluniau, cerfluniau, traethodau, er enghraifft), a fydd yn cael eu hanfon at y noddwr. Bydd enw'r noddwr, yr unigolyn y mae'r ystafell ddosbarth yn gyflwynedig iddo, a'r briffio cysylltiedig yn ymddangos ar wefan yr Ysgol.

**Noddi coeden ar dir yr ysgol £500**

Bydd yr ysgol yn prynu coeden ifanc sy'n gynhenid i'r ardal ac yn ei phlannu ar dir yr ysgol. Bydd plac gydag enw'r noddwr neu enw'r person y mae'r goeden yn gyflwynedig iddo/iddi, wedi'i osod ar y ddaear wrth ymyl y goeden. Bydd enw'r noddwr, y person y mae'r goeden yn gyflwynedig iddo/iddi ynghyd a ffotograff o'r goeden yn ymddangos ar wefan yr Ysgol.

**Noddi mainc ar dir yr ysgol £500**

Bydd yr ysgol yn comisiynu saer lleol i adeiladu mainc ac yn ei gosod ar dir yr ysgol. Bydd plac gydag enw'r noddwr neu enw'r person y mae'r fainc yn gyflwynedig iddo/iddi yn cael ei osod ar y fainc. Bydd enw'r noddwr, yr unigolyn y mae'r fainc yn gyflwynedig iddo/iddi a ffotograff o'r fainc yn ymddangos ar wefan yr Ysgol.

**Noddi (yn flynyddol) plentyn na all ei rieni fforddio ffioedd ysgol £500**

Bydd sgwrs fer gyda'r plentyn, gyda chymaint o Gymraeg â phosibl, yn cael ei ffilmio a'i e-bostio at y noddwr yn fisol. Bydd enw'r noddwr a ffotograff o'r plentyn yn ymddangos ar wefan yr Ysgol. Yr ysgol fydd yn dewis y plentyn.

**Noddi athro neu athrawes Cymraeg i ddod i Ysgol y Cwm am flwyddyn £15,000**

Bydd yr athro neu'r athrawes yn cael eu dewis gan yr ysgol gan ddefnyddio ei phroses gyfweld arferol, a byddent yn teithio i Batagonia ar ddechrau mis Mawrth tan ganol mis Rhagfyr. Bydd y nawdd yn cynnwys cost yr hediad o'r DU i Esquel, yswiriant iechyd lleol, cyflog misol sy'n hafal i'r hyn a delir gan gynllun Llywodraeth Cymru a llety lleol. Bydd yr athro neu'r athrawes yn darparu blog misol, a fydd yn ymddangos ar wefan yr ysgol. Bydd enw'r noddwr, ynghyd ag unrhyw wybodaeth y mae'r noddwr am ei darparu, ac enw a llun yr athro, yn ymddangos ar wefan yr ysgol.

**Noddi ysgoloriaeth fel y gallai ein myfyrwyr gorau astudio yng Nghymru**

Cysylltwch â'r ysgol i gael manylion am y nawdd hwn.